



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref LF CS 0887 15

Alun Ffred Jones AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

4 Tachwedd 2015

Annwyl Alun Ffred

## **BIL YR AMGYLCHEDD (CYMRU)**

Diolch unwaith eto am roi ystyriaeth i Fil yr Amgylchedd (Cymru) yn ystod Cyfnod 1. Rwy'n falch bod egwyddorion cyffredinol y Bil wedi'u cytuno, a hoffwn ddiolch i'ch Pwyllgor am ei argymhellion yn hyn o beth.

Yn dilyn y drafodaeth Cyfnod 1 ar yr Egwyddorion Cyffredinol ar 20 Hydref, rwyf wedi amlinellu isod fy ymateb i'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Cyllid ym mhob un o'u hadroddiadau. Mae hyn yn cynnwys manylion ble rwy'n cytuno y mae angen cyflwyno gwelliannau i'r Bil.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gydag aelodau'r Pwyllgor ar y mân fanylion, nid yn unig i sicrhau bod y Bil hwn yn addas i'r diben, ond hefyd i wireddu'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd, yn ogystal ag amryw o ymrwymadau strategol eraill, gan gynnwys y rhai mewn perthynas â sefydlu Cymru fel economi werdd, carbon isel.

Fel y gwyddoch rwy'n siŵr, rwyf eisoes wedi cyflwyno amryw o welliannau gan y Llywodraeth i'r Bil, ac rwy'n disgwyl cyflwyno gwelliannau pellach mewn ail gyfran o welliannau gan y Llywodraeth cyn y dyddiad cau.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth ynghlwm yn helpu i lywio'ch gwaith craffu pellach wrth i'r Bil fynd trwy Gyfnod 2.

Rwy'n anfon y llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol hefyd.

Yn gywir

A handwritten signature in cursive script, reading "Carl Sargeant". The signature is written in a light grey or blue ink.

**Carl Sargeant AC / AM**  
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol  
Minister for Natural Resources

# Argymhellion Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1 ar Fil yr Amgylchedd (Cymru)

## Argymhelliad 1

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyhoeddi'r holl ohebiaeth a gafodd ei chyfnewid rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch pob un o gydsyniadau Gweinidogion y Goron y gofynnwyd amdany'n nhw ar gyfer darpariaethau yn y Bil. Yn benodol, rydym yn gofyn i'r Gweinidog gadarnhau ar ba ddyddiad y gofynnodd Llywodraeth Cymru am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i'r darpariaethau yn adran 6 am y tro cyntaf.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Mae'r holl ohebiaeth ffurfiol a gafodd ei chyfnewid rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac sydd i'w chyhoeddi wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 y llythyr hwn.

Ysgrifennodd y Prif Weinidog at yr Ysgrifennydd Gwladol ar 1 Ebrill 2015 i ofyn yn ffurfiol am gydsyniadau Gweinidogion y Goron cyn cyflwyno Bil yr Amgylchedd ar 11 Mai 2015. Llythyr dilynol oedd llythyr 7 Awst 2015 y mae rhai Aelodau wedi cyfeirio ato.

Roedd y cais ffurfiol a wnaed ym mis Ebrill yn dilyn misoedd lawer o gyswllt rhwng fy swyddogion i a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Dechreuodd y broses ym mis Tachwedd 2014 pan amlinellodd fy adran i gynnwys y Bil yn ysgrifenedig i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ac yna cawsom gyfarfod i drafod y Bil ym mis Rhagfyr 2014. Cafodd drafft o'r Bil ei rannu gyda Swyddfa Cymru ym mis Ionawr 2015 ac ymatebodd Swyddfa Cymru gyda'i sylwadau ym mis Mawrth.

Derbyniodd y Prif Weinidog ymateb ffurfiol gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 11 Medi ac ymatebodd i'r llythyr hwnnw ar 13 Hydref. Rydym yn disgwyl ymateb i'r llythyr hwn a byddaf yn eich hysbysu am y canlyniad fel y bo hynny'n briodol.

## Argymhelliad 2

*Os na fydd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi cydsyniad erbyn diwedd Cyfnod 2 o'r ystyriaethau ar y Bil, yna rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 6 o'r Bil yn ystod Cyfnod 3 i gyfyngu ar ddyletswydd bioamrywiaeth i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru.*

Mae'r argymhelliad hwn yn dibynnu ar benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i roi cydsyniad i adran 6 o'r Bil lle mae'n effeithio ar Weinidogion y Goron, felly rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor**.

## Argymhelliad 3

*Rydym yn argymhell y dylai'r Cynulliad gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil hwn.*

Rwy'n ddiolchgar am holl fewnbwn Pwyllgorau'r Cynulliad sydd wedi cyfrannu at graffu ar y Bil, felly rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Rwy'n croesawu hefyd gymorth y rhanddeiliaid, a hoffwn ddiolch iddynt am eu cyfraniadau.

#### Argymhelliad 4

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn mewnosod diffiniad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig o 'amrywiaeth biolegol' yn ddiffiniad o 'bioamrywiaeth'.*

Rwy'n derbyn barn rhanddeiliaid, yn arbennig, ar bwysigrwydd creu cysondeb gyda'r diffiniadau a ddarperir yn y Bil gyda Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol. Fodd bynnag, mae 'bioamrywiaeth' eisoes yn derm sy'n cael ei ddefnyddio a'i ddeall yn eang mewn deddfwriaeth ryngwladol bresennol ac yn neddfwriaeth bresennol yr UE a'r DU.

Gan ei fod yn derm cyfreithiol sy'n cael ei dderbyn ac sy'n dilyn arfer da a gydnabyddir yn rhyngwladol, wrth ddrafftio'r Bil, ni theimlwyd bod angen ei gynnwys fel diffiniad ar wyneb y Bil. Rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor** ac rwy'n ystyried sut y gall y darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil adlewyrchu ystyr 'bioamrywiaeth' yn well.

#### Argymhelliad 5

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn mewnosod diffiniad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig o 'ecosystem', sef "Ecosystem means a dynamic complex of plant, animal and micro-organism communities and their non-living environment interacting as a functional unit".*

Mae'r Bil yn ymgorffori'r egwyddorion ecosystem a fabwysiadwyd gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol yng nghyfraith Cymru. Er nad oes gwir angen y diffiniad ar wyneb y Bil, rwy'n hapus i ystyried sut y gall y darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil adlewyrchu ystyr 'ecosystemau' yn well, felly rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor**.

#### Argymhelliad 6

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 3(2) o'r Bil er mwyn hepgor yr amcan fel y mae wedi'i ddrafftio a mewnosod Nod Cymru Gydnerth, fel y mae wedi'i nodi o dan adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.*

Rwy'n falch o lefel y cymorth ar gyfer Nod Cymru Gydnerth a'r angen am gysylltiadau clir rhwng Bil yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rwy'n hapus i ystyried sut y gellir gwella'r amcan o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn adran 3(2) o'r Bil i adlewyrchu cysylltiadau agosach â'r holl amcanion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r amcan yn ymwneud â'r holl amcanion a ddarperir yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Er enghraifft, ni fyddai modd i Gymru fod yn iach, yn llewyrchus nac yn gyfrifol yn fyd-eang heb i ni reoli ei hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mewn gwirionedd, gallai newid y diffiniad i gynnwys Nod Cymru Gydnerth wanhau'r diffiniad o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, yn ogystal â chulhau cwmpas y Bil yn ei gyfanrwydd.

Byddai hepgor yr amcan mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn dileu llawer o elfennau allweddol y dull ecosystem, yn enwedig y gydnabyddiaeth o fanteision ecosystemau a'u cyfraniad at ddatblygu cynaliadwy – nid yw'r elfennau hyn yn cael eu cwmpasu gan Nod Cymru Gydnerth.

Fodd bynnag, rwy'n hapus i **dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor** o ran sut y bydd y Bil yn cael ei wella i adlewyrchu cysylltiadau agosach â'r holl amcanion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

### Argymhelliad 7

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r egwyddorion o dan adran 4 i gynnwys cyfeiriad at yr 'egwyddor ragofalus' ac at 'weithredu o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd'.*

Mae'r dull yn y Bil eisoes yn adlewyrchu elfennau allweddol y dull rhagofalus. Mae egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei gwneud hi'n ofynnol i dystiolaeth gael ei chasglu ar unrhyw ansicrwydd ac i dystiolaeth o'r fath gael ei hystyried. Mae hyn yn cyfrannu at ystyried canlyniadau posibl effeithiau yn y tymor byr, canolig a hir.

Fel llywodraeth, rydym yn llwyr gydnabod yr egwyddor o 'weithredu o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd', sydd eisoes yn cael ei hadlewyrchu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r Bil yn mynd i'r afael â'r mater hwn trwy ganolbwyntio ar gydnerthedd a sicrhau bod yr amcan o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cyd-fynd â'r nod o gynyddu cydnerthedd o fewn ein hecosystemau. Mae'r dull hwn yn fwy seiliedig ar dystiolaeth ac yn fwy cadarnhaol na dull a fyddai'n seiliedig ar bennu 'y lefel uchaf o ddifrod i system adnoddau naturiol yr ydym yn barod i'w goddef a'i derbyn'.

Byddwn yn nodi hefyd fod y dull yn y Bil yn seiliedig ar arfer gorau rhyngwladol ac yn cydymffurfio'n llawn â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol a'r cynigion yn y Papur Gwyn a'r Papur Gwyrdd. Am y rhesymau hyn, rwy'n **gwrthod** yr argymhelliad hwn.

### Argymhelliad 8

*Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, erbyn diwedd mis Mawrth 2016, gyhoeddi'r trefniadau ymgynghori a fydd yn gymwys wrth lunio'r NNRP a'r rhestrau bioamrywiaeth o dan adran 7.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn ac rwy'n hapus i gyhoeddi'r wybodaeth hon ar y sail hyn.

### Argymhelliad 9

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil sy'n diffinio'r trefniadau ymgynghori a fydd yn gymwys wrth lunio SoNaRRs a Datganiadau Ardal.*

Rwy'n cytuno â'r Pwyllgor a rhanddeiliaid ynglŷn â phwysigrwydd ymgynghori o ran ymgysylltu â'r holl sectorau perthnasol wrth lunio SoNaRRs a Datganiadau Ardal.

Bydd hi'n ofynnol i CNC ddefnyddio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth lunio SoNaRRs a Datganiadau Ardal o ganlyniad i ddiben cyffredinol newydd a ddarperir yn adran 5 o'r Bil. Ar hyn o bryd, mae adran 4(c) o'r egwyddorion yn cyfeirio at gydweithio a chydweithredu. Rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor** ac rwyf eisoes wedi cyflwyno gwelliant (rhif 2) i egluro bod adran 4 yn cynnwys gwneud trefniadau priodol i gynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau, a fyddai'n cynnwys ymgynghori.

### Argymhelliad 10

*Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau er mwyn hepgor pob enghraifft o'r ymadrodd 'cymryd y camau hynny y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn rhesymol ymarferol' a mewnosod 'cymryd pob cam rhesymol' yn ei le.*

Rwyf wedi ystyried yn ofalus yr alwad gan rai rhanddeiliaid i gryfhau'r iaith mewn rhai adrannau o'r Bil, felly rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Rwyf wedi cyflwyno gwelliannau (rhifau 3, 4 a 5) i gryfhau darpariaethau lle bydd yr ymadrodd "cymryd y camau hynny y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn rhesymol ymarferol" yn cael ei ddisodli gan "cymryd pob cam rhesymol". Mae'r gwelliannau hyn yn ymwneud ag adrannau 7, 9 a 10 o'r Bil. Bydd hyn hefyd yn sicrhau cysondeb gyda'r iaith a ddefnyddir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

### Argymhelliad 11

*Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil sy'n hepgor 'ceisio cyflawni' yn adran 5(2) ac sy'n mewnosod 'dilyn'.*

Rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor** ac rwy'n ystyried sut y gall yr iaith yn adran 5 o'r Bil gael ei newid i adlewyrchu canfyddiadau'r Pwyllgor.

### Argymhelliad 12

*Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru lunio canllawiau statudol ynghylch diben cyffredinol CNC, er mwyn ymgynghori ar y rheiny cyn gynted ag y caiff y Bil Gydsyniad Brenhinol.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn ac rwy'n bwriadu llunio canllawiau ar ddiben cyffredinol CNC cyn gynted ag y caiff y Bil Gydsyniad Brenhinol.

### Argymhelliad 13

*Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 6(1) o'r Bil o hepgor 'ceisio' ac i fewnosod 'cymryd pob cam rhesymol'.*

Rwy'n nodi bod rhai rhanddeiliaid wedi gofyn am i'r ddyletswydd hon gael ei chryfhau ac rwy'n cytuno mewn egwyddor â nod cyffredinol yr argymhelliad. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r adran hon o'r Bil yn destun trafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â chydsyniad Gweinidog y Goron. Ar y sail hyn, rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor** a byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i'r gwelliant hwn pan fydd y trafodaethau wedi symud ymlaen.

## Argymhelliad 14

*Rydym yn argymhell y dylai'r canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ar y gofynion ynglŷn ag adroddiadau gynnwys gwybodaeth ychwanegol am y gweithgareddau y disgwylir i gyrrff cyhoeddus ymgymryd â nhw er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Rwy'n bwriadu datblygu canllawiau i amlinellu'r holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r ddyletswydd bioamrywiaeth newydd. Ar hyn o bryd, cyhoeddir y canllawiau ar gyfer y ddyletswydd bresennol o dan adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, felly disgwylir y bydd y trefniant hwn yn parhau gyda'r ddyletswydd newydd. Fel hyn, darperir cysondeb yn y ffordd y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus gyflawni'r ddyletswydd newydd ac adrodd arni.

## Argymhelliad 15

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau:*

- *I'w gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus gyflawni eu ddyletswydd o dan adran 6 gan gyfeirio at y rhestr sy'n cael ei sefydlu o dan adran 7;*
- *I'w gwneud yn ofynnol i'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol gynnwys asesiad o statws y cynefinoedd a'r rhywogaethau yn y rhestr yn adran 7; ac*
- *I'w gwneud yn ofynnol i'r NNRP a'r Datganiadau Ardal gynnwys y camau a gymerir i gynnal a gwella'r rhywogaethau yn y rhestr yn adran 7.*

Byddaf yn ystyried a ellir gwneud gwelliannau i'r Bil er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd bioamrywiaeth, yn enwedig yn yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) a'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP).

Rwy'n cytuno â'r Pwyllgor a rhanddeiliaid bod y rhestr yn adran 7 yn bwysig. Fodd bynnag, rwy'n credu ei bod hi'n bwysig cydnabod bod yr SoNaRR, yr NNRP a'r Datganiadau Ardal yn ymdrin â'r nod o reoli holl adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na'r rhywogaethau neu'r cynefinoedd penodol sy'n cael sylw yn y rhestr hon yn unig. Rwy'n credu bod y drafft presennol o'r darpariaethau hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod angen defnyddio'r dull ehangach hwn. Felly, rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor**.

## Argymhelliad 16

*Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru nodi'r raddfa a'r amserlen ar gyfer ei hymgyngoriad ynghylch elfen bioamrywiaeth dangosyddion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac amserlen ar gyfer cyflwyno'r dangosyddion hyn. I ganiatáu i hyn gael ei ystyried yng nghyd-destun y Bil, rydym yn gofyn i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi cyn diwedd trafodion Cyfnod 2, sef 27 Tachwedd 2015 ar hyn o bryd.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol a chyflwyno copi i'r Cynulliad. Cyn cyhoeddi dangosyddion cenedlaethol, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf a phobl eraill yr ystyrir eu bod yn briodol.

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar y dangosyddion cenedlaethol ar 19 Hydref, ac ysgrifennais at Aelodau'r Cynulliad ar y dyddiad hwnnw. Bydd yr ymgynghoriad yn

para tan 11 Ionawr 2016 er mwyn cadw at yr amserlen ar gyfer ymgynghori â'r Comisiynydd penodedig, a gosod y dangosyddion terfynol erbyn mis Mawrth 2016.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys dangosyddion sy'n adlewyrchu cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion llesiant, gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol i ecosystemau iach a ffyniannus ac amgylchedd naturiol bioamrywiol. Yn arbennig, hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at ddangosydd arfaethedig 32 ar ecosystemau iach, a dangosydd 33 ar amgylchedd naturiol bioamrywiol. Bydd y ddogfen ymgynghori yn gwahodd safbwyntiau ar y set arfaethedig o ddangosyddion, a bydd yn cynnwys cwestiynau penodol ar rai dangosyddion yn ôl yr angen. Mae gweithgor yn cael ei sefydlu i ddatblygu'r rhain ymhellach, trwy'r Cynllun Adfer Natur.

Dyma ddolen i dudalennau gwe'r ymgynghoriad.

<http://lyw.cymru/consultations/people-and-communities/future-generations-act-how-do-you-measure-a-nations-progress/?lang=cy>

### **Argymhelliad 17**

*Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn cynnwys asesiad o dueddiadau'r gorffennol a'r dyfodol (gan gynnwys y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol) yn ychwanegol at asesiad o gyflwr presennol adnoddau naturiol yng Nghymru.*

*Wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried manteision neu anfanteision pennu hyn ar wyneb y Bil.*

Rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor** yn seiliedig ar y ffaith fy mod yn credu bod yr argymhelliad yn cael ei gwmpasu gan egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a bod eisoes darpariaeth ar ei gyfer ar wyneb y Bil.

Mae'r ddarpariaeth i gynhyrchu SoNaRR fel y disgrifir o dan adran 8 o'r Bil yn cynnwys y meini prawf angenrheidiol sy'n berthnasol i ddarparu asesiad llawn o ddata'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol ar gyflwr adnoddau naturiol yng Nghymru. Diben SoNaRR yw darparu gwybodaeth y gellir ei defnyddio i olrhain cynnydd tuag at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy h.y. nodi a fydd cyflwr adnoddau naturiol yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau dros y tymor hir.

Bwriad y polisi yw sefydlu proses ar gyfer darpariaeth reolaidd ar sail dystiolaeth wrthrychol a gwyddonol gredadwy sy'n adrodd ar gyflwr adnoddau naturiol Cymru h.y. sefydlu set ddata sy'n cipio gwybodaeth gyfredol am gyflwr adnoddau naturiol. Bydd hyn yn sefydlu dolen adborth reolaidd o dystiolaeth ac adrodd sy'n helpu i lywio polisi a darpariaeth y dyfodol, ac sydd hefyd yn ystyried effaith sbardunau a phwysau ar yr adnoddau hynny yn y dyfodol.

Fel sy'n safonol, mae gofyniad angenrheidiol i gynhyrchu asesiad cadarn yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddata gael ei fesur yn erbyn gwaelodlin. Trwy gynhyrchu set waelodlin o ddata ar gyflwr adnoddau naturiol, bydd gwybodaeth sy'n cynrychioli tueddiadau'r gorffennol yn cael ei chipio.

Yn ogystal, o dan adran 4(f) o'r egwyddorion, mae gofyniad wedi'i gynnwys i ystyried y canlyniadau a'r camau gweithredu yn y tymor byr, canolig a hir.



## Argymhelliad 18

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i roi meini prawf manylach ynglŷn â chynnwys gorfodol NNRP.*

Gan fod adran 9 o'r drafft cyfredol o'r NNRP eisoes yn darparu meini prawf ar gyfer ei gynnwys gorfodol, rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.**

Mae adran 9 yn nodi:

- Bod rhaid i Weinidogion Cymru amlinellu eu polisiau cyffredinol a phenodol ar gyfer cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru (adran 9(1));
- Bod rhaid i Weinidogion Cymru amlinellu'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru, gan gynnwys yr hyn yr ystyriant y dylid ei wneud mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd (adran 9(2));
- Y gall Gweinidogion Cymru gynnwys unrhyw beth yr ystyriant sy'n berthnasol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru.

O dan adran 9(8), rhaid i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth arfer eu swyddogaethau o dan adran 9. Yn arbennig, rhaid iddynt:

- ystyried y raddfa briodol ar gyfer gweithredu;
- hyrwyddo cydweithio a chydweithredu ac ymgysylltu â'r prosesau hyn;
- ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth ynghylch ansicrwydd;
- ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau; ac
- ystyried canlyniadau camau gweithredu yn y tymor byr, canolig a hir.

Yn ogystal, rwy'n ystyried cyflwyno gwelliant i fynd i'r afael â'r bwriad sydd wrth wraidd argymhelliad 20 (gweler isod).

## Argymhelliad 19

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd yr NNRP yn cyd-adweithio â Glastir a'r Cynllun Datblygu Gwledig.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Bydd yr NNRP yn amlinellu'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Felly, bydd hyn yn cwmpasu ein holl adnoddau biolegol ac anfolegol, waeth a ydynt mewn ardaloedd gwledig, trefol neu arfordirol.

Bydd yr NNRP yn cyfeirio at Gynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 a Glastir fel modd o gyfrannu at y blaenoriaethau a'r cyfleoedd ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth, gyda Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir yn adnodd pwysig o ran dangos ei effeithiolrwydd mewn perthynas â sicrhau canlyniadau.

## Argymhelliad 20

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 9(2) o'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod unrhyw heriau i reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol ochr yn ochr â'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd allweddol.*

Rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor** a byddaf yn ystyried cyflwyno gwelliant i fynd i'r afael â'r bwriad sydd wrth wraidd yr argymhelliad hwn.

## Argymhelliad 21

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 9(6)(a) er mwyn gosod Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i adolygu'r NNRP o fewn deuddeng mis ar ôl etholiad cyffredinol i'r Cynulliad.*

Rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor**. Fel sydd wedi'i ddrafftio, mae'r Bil yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r NNRP cyntaf gael ei gyhoeddi o fewn 10 mis i adran 9 yn dod i rym. Mae'r Bil eisoes yn ei gwneud hi'n glir y gall Gweinidogion Cymru adolygu'r NNRP unrhyw bryd, ond rhaid iddynt ei adolygu ar ôl etholiad i'r Cynulliad. Byddai hyn yn caniatáu iddo gael ei adolygu pe bai etholiad cyffredinol anghyffredin yn cael ei gynnal.

Bydd adolygu'r NNRP yn bwysig er mwyn sicrhau bod y polisi yn berthnasol. O dan y gyfraith gyffredin, byddai disgwyl i Weinidogion Cymru adolygu'r NNRP o fewn amserlen resymol. Yn ymarferol, mae hyn yn debygol o fod ar ôl etholiad y Cynulliad ac o fewn amserlen a fyddai'n galluogi i'r dogfennau eraill sy'n gysylltiedig ag ef, megis y Datganiadau Ardal, gael eu cynhyrchu. Mae'n bwysig bod yr NNRP yn parhau i fod yn berthnasol, felly dylid ei adolygu'n gyson.

Am y rhesymau hyn, nid wyf yn credu bod angen gosod amserlen benodol ar gyfer adolygu'r NNRP.

## Argymhelliad 22

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i CNC Iunio Datganiadau Ardal sydd gyda'i gilydd yn ymdrin â holl ardaloedd tir ac arfordir Cymru.*

Rhagwelir y bydd holl ardaloedd tir ac arfordir Cymru yn cael eu cwmpasu gan Ddatganiad Ardal maes o law ac, ar y sail hon, rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor**. Bydd Datganiadau Ardal yn nodi cyfleoedd i gyflawni ymrwymadau strategol ar lefel leol a amlinellir yn yr NNRP, a fydd yn edrych ar y rhyngwyneb rhwng aer, tir a môr ar lefel leol.

Trwy wneud hyn, bydd Datganiadau Ardal yn cefnogi darpariaeth leol y blaenoriaethau cenedlaethol a amlinellir yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r NNRP, gan sicrhau bod y gwaith o reoli ein tir a'n môr yn cael ei gydgyfylltu yn ymarferol. Yn hytrach na disodli'r fframwaith sydd wedi'i sefydlu ar gyfer yr amgylchedd morol, bydd y Bil yn gweithio gyda'r fframwaith hwnnw i sicrhau bod y gwaith o reoli adnoddau naturiol mewn amgylcheddau tir a môr yn integredig.

### Argymhelliad 23

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog, wrth ymateb i'r argymhelliad hwn yn y Cyfarfod Llawn, nodi bwriad Llywodraeth Cymru ynglŷn â Datganiadau Ardal ac a ydyn nhw am gynnwys camau gweithredu yn ogystal â chronfa dystiolaeth.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Darparais fanylion pellach am Ddatganiadau Ardal yn ystod y drafodaeth ar egwyddorion cyffredinol Cyfnod 1 ar 20 Hydref.

Prif ddiben Datganiad Ardal yw crynhoi tystiolaeth mewn perthynas â'r adnoddau naturiol mewn ardal, a'r risgiau a'r cyfleoedd allweddol sy'n gysylltiedig â nhw. Bydd hyn yn galluogi CNC i flaenoriaethu a threfnu ei weithgareddau a llywio darpariaeth ehangach gwasanaethau cyhoeddus a llywodraethu democrataidd ar lefel leol yn yr ardal honno.

Byddant hefyd yn darparu tystiolaeth o gyfleoedd mewn ardal, a all gael eu mabwysiadu gan barti arall. Er enghraifft, gall awdurdod cyhoeddus ddefnyddio tystiolaeth ar fioamrywiaeth i'w helpu i gyflawni ei ddyletswydd bioamrywiaeth.

### Argymhelliad 24

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus Cymru i gymryd pob cam rhesymol i roi Datganiadau Ardal ar waith.*

Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyfarwyddo gyrff cyhoeddus i roi Datganiadau Ardal ar waith. Yn arbennig, bydd gan gyrff cyhoeddus a ddiffinnir yn adran 11 o'r Bil ddyletswydd i helpu CNC i roi Datganiadau Ardal ar waith.

Rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor** ac rwy'n fodlon ystyried cyflwyno gwelliant yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor. Fodd bynnag, mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r geiriad i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â sut y gall gyrff eraill roi Datganiadau Ardal ar waith trwy gynlluniau llesiant lleol.

Bydd hi hefyd yn ofynnol i CNC ymgysylltu a chydweithredu â rhanddeiliaid eraill a phartïon eraill â buddiant mewn ardal (wrth roi egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar waith).

### Argymhelliad 25

*Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ffigurau diwygiedig ar gostau rhoi'r ddeddfwriaeth hon ar waith a'r adnoddau a fydd ar gael i CNC i gyflawni'r swyddogaethau ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil hwn.*

Bydd hi'n cymryd amser i roi'r Bil ar waith yn llawn, ac rwy'n cydnabod y bydd costau tymor byr yn gysylltiedig â'r cyfnod pontio hwnnw. Mae'r ffigurau diweddaraf ar y gost o roi'r Bil ar waith wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA). Bydd y gost o roi'r rheoliadau ar waith yn cael ei hamlinellu'n fwy manwl yn yr RIA perthnasol, fel sy'n ofynnol gan reolau sefydlog.

Mae yna botensial mawr ar gyfer arbedion effeithiolrwydd yn y tymor byr a chanolig, trwy fanteisio ar y cyfle i integreiddio a symleiddio swyddogaethau cynllunio a darparu gan ddefnyddio'r fframwaith a amlinellir yn y Bil .

O ran adnoddau CNC, rydym wedi gweithio'n agos gyda CNC wrth ddatblygu'r Bil, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, mae angen i mi bwysleisio bod elfen bwysig o Ran 1 o Fil yr Amgylchedd yn ymwneud â sut y bydd hi'n ofynnol i CNC gyflawni ei ddiben craidd; yn hynny o beth, ni ddylai'r gofynion hyn gael eu gweld fel swyddogaethau 'ychwanegol'; yn hytrach, dylid ystyried eu bod yn rhan annatod o'i gylch gwaith.

Ar y sail hyn, rwy'n **gwrthod** yr argymhelliad.

### **Argymhelliad 26**

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i osod dyletswyddau ychwanegol ar CNC:*

- *i baratoi a chyhoeddi asesiad risg cyn gwneud cais i Weinidogion Cymru; ac*
- *i fonitro effeithiau unrhyw gynlluniau a gaiff eu cynnal, cyflwyno adroddiadau arnyn nhw a'u cyhoeddi.*

Rwy'n credu bod yr amddiffyniadau angenrheidiol eisoes ar waith yn y drafft presennol o'r Bil. Rhaid i CNC gyflwyno cais manwl i Weinidogion Cymru cyn y gall y pŵer gael ei ddefnyddio, os disgwylir y bydd hyn yn cynnwys asesiad risg mewn perthynas â'r cynllun. Yn arbennig, byddai'n rhaid i CNC gyflwyno cais i gyflwyno achos dros ddefnyddio'r pŵer hwn a byddai asesiad risg yn rhan o'r achos hwn. Felly, rwy'n credu bod y rhan gyntaf o'r argymhelliad eisoes yn rhan o'r Bil, ac rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol**.

Mewn ymateb i'r ail ran o'r argymhelliad, bydd hi'n ofynnol i CNC, o dan egwyddorion adran 4, fonitro effeithiau unrhyw gynlluniau a gaiff eu cynnal. Fodd bynnag, byddaf yn ystyried a all geiriad y darpariaethau perthnasol adlewyrchu hyn yn well yn y Bil.

## Rhan 2 – Y Newid yn yr Hinsawdd

### **Argymhelliad 27**

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r corff cynghori adolygu pa mor ddigonol yw targed 2050 a chyflwyno adroddiad ar hynny bob pum mlynedd.*

Rwy'n cytuno ei bod hi'n bwysig adolygu'r targed a chyflwyno adroddiad arno, a dyna'r rheswm pam mae Rhan 2 o'r Bil wedi cael ei drafftio i sicrhau bod y targedau'n cynrychioli'r wybodaeth wyddonol ddiweddaraf, yn ogystal â chytundebau rhyngwladol. Felly, rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor**.

Mae'r fframwaith a ddarperir gan y Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn rhoi hyn ar waith o ystyried bod y gofyniad ar gyfer cyfnodau cyllidebol o bum mlynedd o 2016 hyd at 2050. Ar ddiwedd pob cyfnod cyllidebol, bydd y Corff Cynghori yn cynnal adolygiad o gynnydd, gan gynnwys a yw'r cynnydd tuag at darged 2050 yn cael ei gyflawni. Felly, bydd y gwaith o bennu'r cyllidebau carbon a'r llwybr lleihau allyriadau tymor hir sy'n cael ei ddatblygu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gan ystyried y sail dystiolaeth ddiweddaraf a chynghor gan y Corff Cynghori.

Byddai cynnwys gwelliant tebyg i hyn yn dyblygu'r cynnydd o ran cyflwyno adroddiad bob pum mlynedd ar fodloni cyllidebau carbon.

### **Argymhelliad 28**

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu pŵer i Weinidogion Cymru amrywio targed 2050 drwy reoliadau (yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol).*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn a byddaf yn ystyried cyflwyno gwelliant i ddarparu pŵer i Weinidogion Cymru amrywio targed 2050 drwy reoliadau, gan alluogi strwythur cryfach ar gyfer ymateb i ddatblygiadau yn yr ymdrechion byd-eang i leihau allyriadau.

### **Argymhelliad 29**

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 32(3) o'r Bil i fewnosod yr egwyddor o gadw cynhesu byd-eang o fewn 2 radd ganradd yn y meini prawf y mae'n rhaid i'r Gweinidogion eu hystyried wrth osod targedau a chyllidebau carbon.*

Wrth amlinellu'r fframwaith mewn deddfwriaeth, mae'n bwysig bod llwybr clir ar gyfer datgarboneiddio yn cael ei osod, gyda'r hyblygrwydd i'n galluogi ni yng Nghymru i ymateb i'r dystiolaeth ddiweddaraf i lywio ein penderfyniadau.

Mae'r egwyddor o gadw cynhesu byd-eang o fewn 2°C eisoes wedi'i nodi yn y rhestr bresennol o feini prawf fel adran 32(3), sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried gwybodaeth wyddonol, yn ogystal â pholisi'r UE a pholisi rhyngwladol mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd.

Fodd bynnag, wrth i'n gwybodaeth am y newid yn yr hinsawdd barhau i gynyddu ac wrth i gytundebau ac ymrwymadau rhyngwladol newydd gael eu gwneud, mae'r angen i'r dull y darperir ar ei gyfer yn y Bil fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu sail dystiolaeth sy'n newid.

Mae'r dull yn y Bil yn caniatáu hyn; mae'n galluogi'r meini prawf i fod yn hyblyg mewn perthynas â datblygiadau mewn gwybodaeth am dystiolaeth wyddonol a datblygiadau'r dyfodol ar bolisi a chyfraith yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd ar lefel ryngwladol ac Ewropeaidd.

Er fy mod yn **derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor**, rwy'n credu na fyddai rhoi'r egwyddorion o gadw cynhesu byd-eang o fewn 2°C ar wyneb y Bil yn caniatáu i Gymru ymateb i dystiolaeth wyddonol sy'n newid nac i ddatblygiadau mewn polisi a chyfraith yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd ar lefel ryngwladol ac Ewropeaidd.

Mae hi hefyd yn werth nodi ein bod ni, fel Llywodraeth, yn un o lofnodwyr sylfaen y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gynhesu byd-eang o dan 2°.

### Argymhelliad 30

*Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru nodi rhychwant ac amserlen ei hymgyngoriad ar dargedau interim ac amserlen ar gyfer cyflwyno'r targedau hynny. Er mwyn caniatáu i hyn gael ei ystyried yng nghyd-destun y Bil, rydym yn gofyn i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi cyn diwedd trafodion Cyfnod 2, sef 27 Tachwedd 2015 ar hyn o bryd.*

Rwy'n deall pwysigrwydd monitro cynnydd tuag at darged 2050 a'r cyfraniad y bydd targedau interim yn ei wneud at hyn, felly rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Fel yr amlinellir yn y Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer y Bil, bydd y pŵer i osod targed interim yn cael ei ddefnyddio cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol yn seiliedig ar gyngor a dderbynnir gan y corff cynghori ac mewn cydweithrediad â'r gwaith o ddatblygu a gosod y ddwy gyllideb garbon gyntaf i sicrhau cysondeb.

Bydd unrhyw ddefnydd pellach o'r pŵer i osod unrhyw dargedau interim pellach ond yn cael ei ystyried os bydd tystiolaeth wyddonol a thechnegol, cyngor gan y corff cynghori neu adolygiadau o gynnydd tuag at fodloni targed 2050 yn nodi bod targed interim pellach yn ofynnol.

Felly, byddaf yn ystyried cyflwyno gwelliant i'r Bil i osod amserlen ar gyfer targedau interim.

Wrth osod unrhyw dargedau interim, mae'n bwysig bod Gweinidogion Cymru yn cadw'r gallu i ymateb i unrhyw newidiadau i dystiolaeth a chyfraith a pholisi rhyngwladol ac Ewropeaidd. Darperir yr hyblygrwydd hwn yn adran 32(2), sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i newid blynyddoedd targed interim neu darged allyriadau interim os bydd amodau penodol yn cael eu bodloni, er enghraifft, o ganlyniad i ddatblygiadau sylweddol mewn gwybodaeth wyddonol neu'r datblygiadau gyda chyfraith neu bolisi'r UE neu yn rhyngwladol neu oherwydd newid a argymhellwyd gan y corff cynghori.

### Argymhelliad 31

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn gosod dyletswydd ar Weiniogion Cymru i gyflwyno adroddiadau ar sail defnyddio yn ogystal ag ar sail cynhyrchu.*

Rwy'n ystyried sut y mae allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael eu mesur ar sail defnyddio fel rhan o'r dangosyddion llesiant cenedlaethol sy'n ofynnol o dan Ddeddf

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yr ydym yn ymgynghori arnynt ar hyn o bryd.

Rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor** a byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i'r angen i gyflwyno unrhyw welliant angenrheidiol i'r Bil.

### Argymhelliad 32

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r gyllideb garbon gyntaf gael ei gosod yn gynt na diwedd 2018 ac i'r ail gyllideb garbon a'r drydedd gael eu cyhoeddi cyn diwedd 2018.*

Rwy'n cydnabod y gorchymyn cyffredinol i gyflawni'r gwaith hwn cyn gynted â phosibl. Felly, rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor** a byddaf yn ystyried yr amserlenni ar gyfer cyflwyno'r tair cyllideb garbon gyntaf.

Ar gyfer y cyfnod cyllidebol cyntaf, fodd bynnag, byddwn yn pwysleisio pwysigrwydd y gwaith manwl sydd angen ei gyflawni i lywio'r broses gyllidebol, sy'n golygu mesur ein hallyriadau ac ystyried yr ystyriaethau allweddol megis yr adroddiadau diweddaraf ar wyddoniaeth, technoleg a Thueddiadau'r Dyfodol, er efallai na fyddant ar gael tan fis Mai 2017.

Gan ystyried pwysigrwydd gosod y llwybr datgarboneiddio ar gyfer Cymru, mae'n hollbwysig bod yna ddigon o amser i gwblhau'r dadansoddiad ac ystyried y goblygiadau. Mae hyn yn cynnwys cael y cyngor priodol gan y Corff Cyngori a fydd yn defnyddio'r un meini prawf â Gweinidogion Cymru, yn ogystal â chynnwys digon o amser i ymgysylltu â rhanddeiliaid.

### Argymhelliad 33

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i newid y pŵer yn adran 33(2) yn ddyletswydd.*

Yn seiliedig ar y testun sy'n cefnogi'r argymhelliad hwn, rwy'n credu bod y Pwyllgor yn cyfeirio at adran 33(3). Ar y gysail honno, mae fy ymateb yn ymwneud ag adran 33(3) yn hytrach nag adran 33(2).

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn ac rwyf eisoes wedi cyflwyno gwelliant sy'n mynd i'r afael ag ef (rhif 7). Mae'r gwelliant yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weiniogion Cymru osod terfyn ar gyfanswm net yr unedau carbon y gellir eu defnyddio i leihau cyfrif allyriadau net Cymru.

### Argymhelliad 34

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i ymestyn y paramedrau yn adran 32(3) i'r corff cyngori ar y newid yn yr hinsawdd.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn a byddaf yn ystyried cyflwyno gwelliant i sicrhau y bydd y corff cyngori yn ystyried yr un meini prawf â Gweinidogion Cymru, wrth ymgynghori'r Gweinidogion ar osod a newid targedau interim a chyllidebau carbon.

### Argymhelliad 35

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn gosod ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio adroddiad blynyddol ar y cynnydd tuag at darged 2050.*

Yn ogystal â llunio adroddiad ar y cyllidebau carbon bob pum mlynedd o dan Fil yr Amgylchedd, bydd hefyd angen cyflawni'r darpariaethau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n cynnwys gofyniad clir i lunio adroddiadau blynyddol.

Mae adran 10 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol ar gynnydd tuag at gyflawni'r amcanion llesiant. Yna, gall Gweinidogion Cymru osod cerrig milltir, gan gynnwys un ar gynnydd tuag at darged 2050. Bydd un o'r dangosyddion yn mesur allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer Cymru gyfan. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y dangosydd hwn trwy'r adroddiad blynyddol ar lesiant. Mae adran 10(3) o'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru osod cerrig milltir ar gyfer y dangosyddion, gan gynnwys un ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Bydd gan Weinidogion Cymru (ynghyd â gweddill y cyrff cyhoeddus rhestredig) ddyletswydd hefyd i lunio adroddiad blynyddol ar eu hamcanion llesiant. O ystyried y gofyniad i weithio tuag at y saith Amcan, byddwn yn rhagweld y byddai'r adroddiad blynyddol yn cynnwys manylion ar gynnydd tuag at darged 2050, felly rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor**.

Trwy fframio'r gofyniad fel hyn, rydym yn cydnabod bod gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, yn hytrach na bod yn fater annibynnol, yn gorfod bod yn sail i'n holl gamau gweithredu er mwyn sicrhau gostyngiadau mewn allyriadau, a rhaid iddo fod yn rhan annatod o'r camau gweithredu a gymerir ledled y gwasanaeth cyhoeddus.

### **Argymhelliad 36**

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog roi mwy o eglurder i'r Cynulliad a'r rhanddeiliaid ar sut y caiff y gofynion ynglŷn ag adroddiadau yn y Bil hwn ac yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol eu cydlynu.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn ac yn darparu isod wybodaeth am y gofynion adrodd cysylltiedig.

Mae'r trefniadau adrodd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn perthyn i ddau faes allweddol:

- Dangosyddion cenedlaethol – adroddir arnynt trwy adroddiad llesiant blynyddol; ac
- Amcanion llesiant – adroddir arnynt trwy adroddiad blynyddol gan bob corff cyhoeddus

Mae yna hefyd adroddiadau cyfnodol a gynhrychir gan Weinidogion Cymru ar dueddiadau'r dyfodol, yn ogystal ag un gan y Comisiynydd newydd ar yr hyn y dylai cyrff cyhoeddus ei wneud i gyflawni'r amcanion llesiant. Wrth gwrs, mae'r trefniadau adrodd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ehangach na'r rhai o dan y Bil a gallent fod yn berthnasol i amcanion sy'n ceisio datblygu poblogaeth fedrus a hyddysg ac annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden, yn ogystal ag ymdrechion i wella amgylchedd naturiol bioamrywiol Cymru. Bydd adroddiadau mwy penodol yn dod trwy'r trefniadau adrodd o dan y Bil, er enghraifft, bydd yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) yn darparu'r sail dystiolaeth a ddefnyddir ledled Cymru i lywio'r gwaith o osod



blaenoriaethau graddfa leol a chenedlaethol, a bydd yn sail i'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP) a'r Datganiadau Ardal.

Mae'r NNRP yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol o'r SoNaRR diweddaraf, a fydd hefyd yn cyfeirio at dystiolaeth a ddarperir gan yr Adroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol.

Fel dogfen gyhoeddus, bydd SoNaRR ar gael i bob parti â buddiant ar gyflwr adnoddau naturiol Cymru, a bydd yn gallu helpu awdurdodau cyhoeddus gyda'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i sicrhau bod eu hamcanion llesiant yn cyfrannu at yr amcanion llesiant y darperir ar eu cyfer yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Bydd y darpariaethau adrodd yn y Ddeddf a'r Bil yn ategu ei gilydd a byddwn yn disgwyl iddynt leihau'r baich a'r cymhlethdod i gyrff cyhoeddus.

Yn fy ngohebiaeth flaenorol i'r Pwyllgor dyddiedig 3 Medi 2015, darperais amserlen ar gyfer yr amseru a'r rhyngweithio rhwng cynhyrchion ac adroddiadau sy'n ofynnol o dan y Bil hwn, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.

### **Argymhelliad 37**

*Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ymwneud â Chanolfan Tyndall gyda golwg ar edrych ymhellach ar gynnwys allyriadau hedfan a morgludiant wrth osod cyllidebau a thargedau carbon gan adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar ei hystyriaethau ar argymhellion Canolfan Tyndall.*

Rwy'n **derbyn** bod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r mater hwn a byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y ffordd orau o bennu sut y gellid cynnwys allyriadau hedfan a morgludiant wrth osod cyllidebau a thargedau carbon.

### **Argymhelliad 38**

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog nodi sut y bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r corff cynghori ar newid yn yr hinsawdd yn cyd-adweithio â'i gilydd.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn ac rwyf eisoes wedi gofyn i Gomisiynydd Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd ystyried hyn yng nghyd-destun y rôl.

Mae adran 19 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn nodi y gall y Comisiynydd, wrth gyflawni ei ddyletswydd gyffredinol, ddarparu cyngor a chymorth i gyrff cyhoeddus, sy'n gallu cynnwys cyngor ar y newid yn yr hinsawdd. Dylai unrhyw gyngor a ddarperir fod yn ôl doethineb y Comisiynydd. Nid oes pwerau i Weinidogion Cymru amlinellu sut y bydd y Comisiynydd yn cyflawni'r ddyletswydd hon.

Gall y corff cynghori ar y newid yn yr hinsawdd ddatblygu perthynas waith gyda'r Comisiynydd, ond nid yw'n bosibl nac yn briodol ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru ragweld sut y bydd y rhyngwyneb hwn yn gweithio. Gall y Comisiynydd ddarparu cyngor a chymorth i gyrff cyhoeddus, sy'n gallu cynnwys cyngor ar y newid yn yr hinsawdd. Mae hyn wedi'i amlinellu yn y Ddeddf. Gall y corff cynghori ddarparu cyngor annibynnol ar osod a chyflawni cyllidebau carbon, monitro cynnydd o ran lleihau allyriadau a chyflawni cyllidebau carbon, cynnal dadansoddiad annibynnol o wyddor, economeg a pholisi newid hinsawdd ac ymgysylltu ag ystod eang o sefydliadau i rannu dystiolaeth a gwaith dadansoddi.

Y newid yn yr hinsawdd yw un o'n heriau tymor hir mwyaf a byddwn yn disgwyl y byddai'r Comisiynydd am archwilio goblygiadau hyn i genedlaethau'r dyfodol. O ganlyniad, byddwn yn rhagweld perthynas waith effeithiol gyda'r corff cynghori.

### Argymhelliad 39

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog nodi sut y mae'n gweld dyfodol Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd.*

Rwy'n **derbyn** argymhelliad y Pwyllgor. Bydd Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn parhau ar ei ffurf bresennol hyd at fis Mawrth 2016. Rwyf wedi gofyn i'r Comisiwn am ei farn ar sut y mae'n credu y dylai'r rôl gael ei datblygu yng nghydestun creu rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Argymhelliad 40

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ddarparu rhestr o'r mecanweithiau y mae'n cyfeirio atyn nhw ochr yn ochr â disgrifiad o'r agweddau ar addasu y maen nhw'n ymdrin â nhw er mwyn inni asesu pa mor llydan a dwfn yw'r ymdriniaeth.*

Yn fy llythyr i'r Pwyllgor ar 3 Medi, amlinellais y mecanweithiau eraill sydd ar waith yn y Bil i fynd i'r afael ag addasu, felly rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n cwmpasu addasu megis datblygiad y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol y mae'n rhaid iddo ystyried camau gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys lliniaru ac addasu. Yn ogystal, mae'r dull ecosystemau, a ddatblygwyd gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol ac y mae'r Bil yn darparu ar ei gyfer, yn cynnwys y cyfraniad y gall ein hadnoddau naturiol ei wneud at fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd.

Mae'n bwysig nodi bod y Bil wedi'i gynllunio i gefnogi gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sydd eisoes yn cynnwys amryw o ddarpariaethau sy'n ofynnol er mwyn ystyried addasu, er enghraifft, yr adroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol ac asesiadau llesiant y mae'n rhaid iddynt ystyried Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU.

## Rhan 3 – Codi Tâl am Fagiau Siopa

### Argymhelliad 41

*Er gwaethaf ein sylwadau uchod, ar gyfer unrhyw estyniad ar y cynllun e.e. i fagiau am oes, rydym yn argymhell y dylai'r enillion hyn gael eu cyfeirio at elusennau sydd â chylch gorchwyl amgylcheddol. Ymhellach, os oes modd, dim ond at elusennau sy'n gweithredu yng Nghymru y dylen nhw gael eu cyfeirio.*

Rwy'n credu bod cefnogaeth manwerthwyr a'r cyhoedd wedi bod yn rhan annatod o llwyddiant y tâl am fagiau siopa. Mae'r ffaith bod y rhan fwyaf o fanwerthwyr eisoes yn barod i gyfeirio eu henillion net at achosion da yn brawf o hyn.

Fodd bynnag, rwy'n credu y bydd dileu hawl y manwerthwyr i ddewis at bwy y maen nhw'n cyfeirio eu henillion yn golygu y bydd arian yn cael ei dynnu oddi wrth y rhai sydd eisoes yn elwa, yn tansilio'r gefnogaeth a'r cysylltiadau presennol ac yn peryglu llwyddiant y polisi, felly rwy'n **gwrthod** yr argymhelliad hwn.

Rwy'n credu bod yna hyblygrwydd yn y rheoliadau presennol i gyfyngu ar le gall yr enillion net gael eu cyfeirio a phryd mae'r rheoliadau'n cael eu gwneud. Wrth gwrs, byddaf yn ystyried argymhellion a wneir gan y Pwyllgor a safbwyntiau partïon eraill â buddiant.

## Rhan 4 – Casglu a Gwaredu Gwastraff

### **Argymhelliad 42**

*Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gymorth y bydd yn ei roi i fusnesau bach i'w helpu i fodloni unrhyw ofynion newydd ynglŷn â gwahanu gwastraff.*

Rwy'n cydnabod y bydd busnesau angen cymorth ac arweiniad i fodloni'r rheoliadau newydd ac, ar sail hyn, rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Mae trafodaethau bellach wedi dechrau gydag awdurdodau lleol ar natur y cymorth sydd ei angen ar fusnesau, a bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal ar hyn gyda sefydliadau masnach a busnes.

Bydd angen i fanylion unrhyw becyn cymorth gael eu datblygu mewn cydweithrediad â'r gwaith o ddatblygu rheoliadau a byddant yn cael eu hamlinellu ar y pryd, gan y bydd angen i'r cymorth gael ei addasu i'r gofynion rheoliadol.

Rwy'n ystyried amryw o gamau i helpu BBaChau i fodloni'r gofynion gwahanu, gan gynnwys:

- datblygu "prospectws twf gwyrdd" ar gyfer y sector rheoli gwastraff, gan roi sylw i gasgliadau, ailbrosesu deunydd ailgylchu a chyfleusterau troi gwastraff yn ynni i hyrwyddo cyfleoedd i greu swyddi a buddsoddi;
- ymgyrch gyfathrebu fanwl cyn i'r Rheoliadau ddod i rym;
- datblygu gweithgareddau cymorth megis pecynnau cyngor i fusnesau; a
- cyfnod arweiniol digonol i sicrhau bod busnesau'n gallu gwneud trefniadau addas.

Mae llawer o BBaChau eisoes yn gwahanu eu gwastraff i'w gasglu ac yn croesawu'r gwell gwasanaeth casglu y bydd y cynigion yn ei hyrwyddo a'r gostyngiad mewn costau o ganlyniad.

Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau megis WRAP a rhanddeiliaid i ddatblygu pecyn cymorth fel rhan o ddatblygiad Rheoliadau. Nid yw'n briodol amlinellu'r pecyn cymorth hyd nes y bydd y Rheoliadau wedi'u datblygu, gan y bydd angen addasu'r cymorth i'r gofynion rheoliadol a chyllidebau'r dyfodol.

### **Argymhelliad 43**

*Rydym yn argymhell y dylai unrhyw reoliadau a fydd yn cael eu cyflwyno o dan adran 45AA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (a fewnosodir gan adran 66 o'r Bil) gynnwys y prawf TEEP.*

Byddaf yn ystyried pa mor briodol yw TEEP o ran datblygu Rheoliadau, a fydd yn destun ymgynghori a chraffu llawn gan y Cynulliad. Bydd angen i'r rheoliadau fod yn gymesur ynddynt eu hunain – bydd a fyddant yn cael eu cyflawni trwy TEEP neu drwy fesurau eraill yn cael ei ystyried wrth ddatblygu'r rheoliadau ac, ar sail hyn, rwy'n **derbyn yr argymhelliad mewn egwyddor**.

Mae'r gofyniad presennol, o dan Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 (fel y'i diwygiwyd), ar gyfer casglwyr gwastraff (h.y. cwmnïau rheoli gwastraff ac

awdurdodau lleol) i gasglu deunyddiau penodol ar wahân – ond nid ar gyfer y cwsmer i gyflwyno'r gwastraff ar wahân i'w gasglu i hwyluso hyn. Felly, mae'r gofyniad presennol yn unochrog ac, yn aml, mae cwmnïau casglu yn pennu sut mae gwastraff yn cael ei gasglu, gyda dirywiad yn ansawdd y deunydd yn sgil halogiad.

Dyma pam rwyf yn cynnig y ddyletswydd newydd ar fusnesau i gyflwyno gwastraff ar wahân – i sicrhau bod y gofynion yn cyfateb. Bydd hyn yn sicrhau bod systemau'n cydymffurfio â'i gilydd wrth i reoliadau gael eu datblygu.

#### **Argymhelliad 44**

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ymwneud â'r cynrychiolwyr busnes a diwydiant sydd wedi cyflwyno sylwadau inni ynghylch y gwaharddiad ac y dylai ddiwygio'r RIA i gymryd i ystyriaeth y technolegau diweddaraf sy'n cael eu defnyddio – yn enwedig felly y rhai sy'n bodloni safonau'r Cyngor Ymchwil Dŵr.*

Rwy'n **derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol**. Mewn ymateb i ran gyntaf yr argymhelliad hwn, rwy'n **derbyn** hyn ac yn cytuno ynghylch pwysigrwydd ymgysylltu â busnes i sicrhau fy mod yn cael y darpariaethau'n iawn, ac mae hyn wedi'i wneud. Mar safbwyntiau cynrychiolwyr y diwydiant wedi'u hystyried yn ofalus gydol y broses. Mae cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda chymdeithasau yn y diwydiant, megis AMEDA a CESA, yn ogystal â chwmnïau sy'n cynhyrchu a chyflenwi cyfarpar trin gwastraff bwyd yng Nghymru. Bydd yr ymgysylltu â'r diwydiant yn parhau wrth i'r rheoliadau neu'r canllawiau priodol gael eu datblygu.

Mewn perthynas ag ail ran yr argymhelliad, nid wyf yn cynnig diwygio'r RIA ar gyfer y Bil. Wrth baratoi'r RIA ar gyfer y Bil, aethom ati i fodlu'r sefyllfa bresennol, lle mae gwastraff bwyd yn cael ei waredu i garthffos trwy danc malu yn bennaf, ac opsiwn arall lle mae'r gwastraff bwyd hwn yn cael ei ddargyfeirio i gael triniaeth fuddiol. Yr amser priodol i ystyried yr effeithiau ar dechnolegau penodol fydd wrth baratoi'r rheoliadau o dan y Bil, sef wrth ymgynghori a chraffu'n llawn. Byddaf yn sicrhau bod y pwyntiau hyn yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu'r RIA ar gyfer y rheoliadau. Ar sail hyn, rwy'n **derbyn y rhan hon o'r argymhelliad mewn egwyddor**.

#### **Argymhelliad 45**

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried yr achos o blaid esemptio offer sy'n bodloni safonau'r Cyngor Ymchwil Dŵr.*

Mae ardystiad y Cyngor Ymchwil Dŵr yn ystyried sut mae'r offer yn gweithio. Prif ddiben y gwaharddiad yw dargyfeirio gwastraff bwyd o gael ei waredu i garthffos i fod yn wrtaith o safon uchel a chynhyrchu ynni.

Gan fod y Bil yn darparu ar gyfer esemptiadau o'r gwaharddiad, gall technolegau penodol gael eu hystyried wrth ddatblygu'r rheoliadau, a fydd yn destun ymgynghori a chraffu llawn ac, ar sail hyn, rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

### Argymhelliad 46

*Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried a fydd yr esemptiad yn adran 67 ar gyfer gwastraff wedi'i gymysgu â dŵr neu unrhyw hylif arall sy'n cael ei ddefnyddio at lanhau yn caniatáu i olew, braster a/neu sailm gael eu gwaredu mewn carthffosydd dim ond am fod y sylweddau hynny wedi'u troi'n emwlsiwn yn ystod proses lanhau. Os oes unrhyw amheuaeth, rydym yn argymell y dylai ailedrych ar sut mae'r esemptiad wedi'i ddrafftio.*

Prif ddiben y gwaharddiad yw dargyfeirio gwastraff bwyd o gael ei waredu i garthffos i fod yn wrtaith o safon uchel a chynhyrchu ynni.

Fodd bynnag, o ystyried pryderon y pwyllgorau, rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn a byddaf yn ystyried sut mae'r esemptiad hwn wedi'i ddrafftio.

### Argymhelliad 47

*Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynigion ynghylch gorfodi'r gwaharddiad yn fanylach, gan gynnwys y corff a fydd yn gyfrifol am ei orfodi, ac y dylai hyn gynnwys amcangyfrif o gost gorfodi gwaharddiad.*

Rwyf wedi ystyried sylwadau rhanddeiliaid a'r pwyllgor yn ofalus, ac rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Bydd cynigion ar gyfer gorfodi'r gwaharddiad yn cael eu hamlinellu pan fydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y rheoliadau cysylltiedig. Ar ôl i'r Bil gael ei basio, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ymhellach â'r diwydiant a'r rheoleiddwyr posibl i lywio datblygiad cynigion i ddatblygu'r gwaharddiad. Yn ogystal â hyn, bydd y rheoliadau hefyd yn destun craffu llawn gan y Cynulliad.

Bydd yr union gostau, gan gynnwys costau hyfforddi a gorfodi, yn dibynnu ar natur unrhyw waharddiad neu gyfyngiad arfaethedig a lefel y rheoleiddio sy'n ofynnol. Caiff hyn ei ystyried yn fwy manwl fel rhan o'r RIA.

### Argymhelliad 48

*Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru egluro pwy fydd yn gyfrifol am wahanu'r gwastraff, hynny yw ai cludwyr y gwastraff ynteu gweithredwyr y llosgydd.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Ni fydd hi'n ofynnol i weithredwyr llosgyddion gynnal gweithgareddau gwahanu. Mae'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru ledaenu'r cyfrifoldeb ledled y gadwyn rheoli gwastraff. Bydd gan gynhyrchwyr gwastraff ddyletswydd i gyflwyno eu gwastraff ar wahân, a bydd rhaid i gludwyr gwastraff ei gadw ar wahân.

Bydd manylion y gwaharddiad yn cael eu hamlinellu mewn rheoliadau a chanllawiau. Bydd y rheoliadau yn destun ymgynghori a chraffu llawn gan y Cynulliad.

## **Rhan 5 – Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn**

### **Argymhelliad 49**

*Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i'r diwydiant ar sut y caiff y darpariaethau yn y Bil eu cymhwyso a'u dehongli.*

Yn dilyn trafodaethau gyda'r diwydiant pysgod cregyn, ac mewn ymateb i'r Pwyllgor, rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn ac rwy'n bwriadu cyhoeddi canllawiau yn egluro sut bydd y darpariaethau newydd ar gyfer pysgodfeydd pysgod cregyn yn cael eu gweithredu.

Bwriedir i'r darpariaethau newydd ystyried anghenion ymgeiswyr Gorchmynion Rheoleiddio Pysgodfa Unigol neu Amlbysgodfa yn ogystal â chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae'r darpariaethau'n gwneud yr hyn sy'n ofynnol o safbwynt Ewrop – sy'n cynnwys gallu gweithredu'n rhagofalus.

Bydd cyngor a chanllawiau ar gyfer ymgeiswyr yn cael eu paratoi drwy ragor o ymgynghori ac yna fe'u cyhoeddir, ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.

### **Argymhelliad 50**

*Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried a ddylai'r Bil gael ei ddiwygio er mwyn peri bod methu cydymffurfio â hysbysiad diogelu safle yn drosedd ac y dylai gyhoeddi ei safbwynt ynglŷn â hyn.*

Cafodd gwneud methiant i gydymffurfio â Hysbysiad Diogelu Safle ei yn drosedd ei ystyried wrth ddatblygu'r Bil, a deuthum i'r casgliad bod hyn yn ddiangen ac yn anghymesur. Ym mhob achos bron, y peth gorau fyddai i'r person dan sylw gydymffurfio â darpariaethau'r Hysbysiad ac osgoi'r niwed i'r Safle Morol Ewropeaidd. Ystyrir bod y gosb bresennol o ddirymu'r gorchymyn (sy'n ased gwerthfawr i'r gweithredwyr dan sylw) yn ddigon o gymhelliant i gydymffurfio.

Am y sail hon, rwy'n **gwrthod** yr argymhelliad hwn.

## Rhan 6 – Trwyddedu Morol

### Argymhelliad 51

*Wrth gynnal yr ymgynghoriad hwn, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gynnwys cwestiynau ymgynghori ynghylch:*

- *Dangosyddion perfformiad (hynny yw ar gyfer perfformiad yr awdurdod trwyddedu) yn cynnwys amserlenni ar gyfer prosesu ceisiadau;*
- *Sefydlu gofynion ynglŷn â chyhoeddi data;*
- *Sicrhau mecanwaith tryloyw ar gyfer gosod ffioedd, a*
- *Chyflwyno cyfradd fesul awr ar gyfer ffioedd.*

Rwy'n falch bod y Rhan hon o'r Bil wedi cael cefnogaeth eang ac rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Rwy'n rhagweld y bydd yr ymgynghoriad cysylltiedig yn dechrau ym mis Mehefin 2016.

Byddai'n anodd gosod amserlenni statudol, o ystyried natur amrywiol ceisiadau am drwyddedau morol. Fodd bynnag, cydnabyddir bod cael amserlenni penodol o fudd i fusnesau. Felly, lle bo'n briodol, bydd amserlenni disgwylidig ar gyfer penderfynu ar drwyddedau morol yn cael eu pennu ar lefel polisi fel rhan o'r adolygiad ffioedd.

Rwy'n cydnabod y pwyntiau a godwyd ynghylch cyhoeddi data. Mae'n bwysig ystyried cyfleoedd i wella'r data sydd ar gael yn y maes morol. Mae nifer o ddefnyddwyr y môr yn mynd ati i ychwanegu eu data morol at hybiau data – a byddwn yn parhau i annog yr arfer gwirfoddol hwn.

Nod cyffredinol yr Adolygiad o Ffioedd Trwyddedu Morol yw darparu cyfundrefn addas i'r diben, cymesur cadarn, teg a thryloyw ar gyfer codi tâl am gostau sy'n gysylltiedig â thrwyddedu morol. Mae'r model ffioedd sy'n cael ei ffafrio sy'n cael ei bwysu a mesur drwy'r Adolygiad Ffioedd yn cynnwys elfen gref o godi tâl fesul awr.



# Argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## Argymhelliad 1

*Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 24.*

Mae'r rhesymau wrth wraidd cynhwyso'r weithdrefn negyddol ar gyfer unrhyw reoliadau o dan adran 24 yn deillio o natur dechnegol newidiadau i'r cyfnodau ar gyfer paratoi'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, fel eu bod yn cyd-fynd â gofynion adrodd statudol eraill. Felly mân-newidiadau gweinyddol eu natur fyddai'r rhain.

Fodd bynnag, rwy'n **derbyn mewn egwyddor** yr argymhelliad hwn a byddaf yn ystyried newid y weithdrefn reoliadau yn yr adran hon fel ei bod yn cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer y rheoliadau hyn.

## Argymhelliad 2

*Rydym yn argymhell fod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol bod tâl yn cael ei godi am fagiau siopa a werthwyd neu a ddosbarthwyd i bobl yng Nghymru, ac i'w gwneud yn ofynnol bod yr enillion net yn cael eu cymhwyso i ddibenion elusennol. Byddai hyn yn cymryd lle'r pŵer disgrisiwn i godi tâl, a ddarperir ar ei gyfer yn Adran 55 o'r Bil.*

Rwy'n croesawu'r ffaith fod y Pwyllgor yn cydnabod llwyddiant codi tâl am fagiau siopa untro yng Nghymru ac rwy'n cydnabod mai bwriad yr argymhelliad hwn yw cryfhau'r polisi. Gan fod y tâl wedi ennill ei blwyf ymysg y cyhoedd yng Nghymru, credaf ei bod hi'n bwysig i ni barhau i adeiladu ar y llwyddiant hwn. Dyma pam ei fod ar wyneb y Bil bellach fod yn rhaid i reoliadau ei gwneud hi'n ofynnol i fanwerthwyr ddefnyddio'u henillion net o'r tâl at ddibenion elusennol.

Fel y noda'r Pwyllgor, mae angen sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n cadw'r hyblygrwydd i ddiwygio'r rheoliadau os bydd amgylchiadau'r dyfodol yn awgrymu bod angen newid y polisi fel ag y mae, er enghraifft, ymestyn y tâl i fathau eraill o fagiau.

Dyma'r rheswm rwyf wedi penderfynu **gwrthod** y diwygiad hwn oherwydd ni chredaf y dylem ni ddileu'r hyblygrwydd hwn a newid cwmpas y pwerau i wneud rheoliadau. Credaf fod modd gweithredu bwriad yr argymhelliad hwn yn fwy effeithiol drwy'r broses diwygio is-ddeddfwriaeth.

## Argymhelliad 3

*Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddileu adran 63.*

Dywedais eisoes yn y Pwyllgor ei bod hi'n annhebygol y byddem am geisio cael gorchymyn cyfansawdd ar y cyd â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r polisi bagiau siopa gan fod deddfwriaeth Llywodraeth y DU parthed bagiau siopa untro yn wahanol iawn i'n polisi ni.

Rwyf wedi ystyried y mater hwn ymhellach erbyn hyn ac rwy'n **derbyn** yr argymhelliad i ddileu adran 63 o'r Bil.

#### Argymhelliad 4

*Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil i sicrhau bod y prosesau apelio ar gyfer trwyddedau pysgodfeydd cregyn a thrwyddedau morol yn cael eu trin yn gyson yn y Bil.*

Mae'r pwerau o dan Ran 5 (pysgodfeydd pysgod cregyn) a Rhan 6 (trwyddedu morol) y Bil yn gymwys i gyfundrefnau rheoliadol gwahanol. Bydd y darpariaethau trwyddedu morol yn cael eu mewnosod yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, sydd eisoes yn cynnwys y gyfundrefn trwyddedu morol ehangach sydd wedi bod ar waith yng Nghymru ers 2011.

Mae Adran 108 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud, drwy reoliadau, darpariaeth i unrhyw berson apelio yn erbyn hysbysiadau penodol. Mae'r hysbysiadau sy'n dod o dan adran 108 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn cynnwys hysbysiadau i atal, amrywio neu ddirymu ac maent yn debyg i'r hysbysiadau y gellir eu cyhoeddi o dan adrannau 72A(7) neu 107(A)(4) a fydd yn cael eu mewnosod yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir gan y Bil. Mae darpariaethau'r Bil yn ymestyn cwmpas adran 108 i fod yn gymwys i hysbysiadau a gyflwynir o dan adrannau 72A (7) a 107(A)(4).

Mae'r weithdrefn ar gyfer gosod y mecanwaith apelio eisoes wedi'i hamlinellu yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ar gyfer hysbysiadau trwyddedu morol eraill. Mae'r Bil yn ceisio sicrhau cysondeb â'r pwerau cyfredol i apelio yn erbyn hysbysiadau o dan adran 108 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir. Mae adran 108 yn caniatáu sefydlu mecanwaith apelio drwy reoliadau. Byddai'n well osgoi rhoi'r mecanwaith apelio ar gyfer y pwerau newydd hyn ar wyneb y Bil, er mwyn adlewyrchu'r hyblygrwydd a geir ar hyn o bryd ar gyfer sefydlu'r darpariaethau apelio ar gyfer gweddill y gyfundrefn.

O ran pysgodfeydd pysgod cregyn (Rhan 5), nid oes mecanwaith apelio nac unrhyw bŵer galluogi a fyddai'n cael ei ddefnyddio i greu mecanwaith apelio o'r fath. O ganlyniad, am y rheswm hwn, mae angen cynnwys mecanwaith apelio newydd ar wyneb y Bil.

O ystyried annibyniaeth y cyfundrefnau, rwy'n **gwrthod** yr argymhelliad hwn.

## Argymhellion y Pwyllgor Cyllid

### Argymhelliad 1

*Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y tabl cryno sy'n dangos y costau a'r manteision yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil hwn yn cael ei newid, i ddangos tablau ar wahân ar gyfer costau a manteision amgylcheddol y pennwyd gwerth ariannol iddynt.*

Rwy'n **derbyn mewn egwyddor** yr argymhelliad hwn oherwydd credaf fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dangos y costau a'r manteision ar gyfer pob rhan o'r Bil ar wahân a, lle bo'n bosibl, gwnaed pob ymdrech i gynnwys manteision y pennwyd gwerth ariannol ar eu cyfer hefyd yn ogystal â manteision heb werth ariannol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Ar gyfer rhai agweddau ar y Bil, mae wedi bod yn anodd tu hwnt amcangyfrif gwerth ariannol manteision - os mai dyma'r achos, ni chafodd ffigur ei gynnwys yn y costau cyfan.

Rwy'n bwriadu adolygu'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ddiwedd Cam 2 ac fel sy'n ofynnol gan y Gorchmynion Sefydlog.

### Argymhelliad 2

*Mae'r Pwyllgor yn argymhell na ddylai Llywodraeth Cymru gyflwyno costau a manteision yn y modd hwn mewn deddfwriaeth yn y dyfodol, gan y credwn fod y dull hwn yn ddryslyd ac yn anfwriadol gamarweiniol.*

*Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru i gytuno ar y ffordd orau o gyflwyno gwybodaeth am gostau a manteision mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol.*

Mae nifer o feysydd polisi penodol yn cael sylw yn y Bil o fewn nod trosfwaol y ddeddfwriaeth hon. Felly, cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddio ar wahân ar gyfer pob Rhan. Rwy'n argyhoeddedig bod hon yn ffordd fwy clir a thryloyw o gynnal yr asesiad hwn gan fod modd ystyried costau a manteision ar gyfer pob Rhan yn unigol.

Fodd bynnag, cafodd canlyniadau pob Asesiad Effaith Rheoleiddiol eu cymhathu mewn tabl cryno cyffredinol yn rhoi'r costau a'r manteision wedi'u mesur ar gyfer pob rhan o'r Bil, ynghyd â ffigurau ar gyfer y Bil yn ei gyfanrwydd. Roedd y dull hwn yn ein galluogi i gyflwyno'r costau a'r manteision cyffredinol ar gyfer pob rhan o'r Bil.

Ymhellach, darparwyd costau dangosol i ddangos goblygiadau ariannol posibl yn y dyfodol o weithredu'r Bil, er enghraifft, mewn perthynas â'r datganiadau ardal yn Rhan 1 y Bil. Am y rhesymau hyn, rwy'n **derbyn mewn egwyddor** yr argymhelliad hwn.

Rwy'n cytuno â chanfyddiadau'r Pwyllgor y dylem barhau i weithio gyda'r Archwilydd Cyffredinol, yn arbennig i gysylltu â gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – i sicrhau bod costau a manteision ar gyfer Biliau yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn unol â fframwaith y Ddeddf honno.

### Argymhelliad 3

*Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn cefnogi'r awgrym bod y Pwyllgor Cyllid yn y dyfodol yn gwneud gwaith craffu ar ôl deddfu o'r costau sy'n gysylltiedig â'r Bil, a bod y Gweinidog yn ymrwymo i sicrhau bod adolygiad o'r costau ar gael bedair/bum mlynedd ar ôl cyhoeddi'r Bil.*

Cytunaf y dylai'r costau gael eu hystyried fel rhan o'r broses ôl-ddeddfu. Fodd bynnag, nid fy lle i yw gwneud sylwadau am waith un o Bwyllgorau'r Cynulliad yn y dyfodol ac nid yw'n briodol i mi ymrwymo i argymhelliad ar ran Gweinidogion Cymru'r dyfodol. Credaf mai mater i'r Gweinidog perthnasol ar yr adeg briodol yw hwn.

Am y rhesymau hynny, rwy'n **derbyn mewn egwyddor** yr argymhelliad hwn.

### Argymhelliad 4

*Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch cywirdeb costau mewn perthynas â pharatoi a llunio datganiadau ardal a lefel y dyraniadau cyllid sydd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni dyletswyddau cyfredol a'r rheini a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru) 2015. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau y caiff y gwaith hwn ei ariannu'n ddigonol.*

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cyfrannu'n llawn at ddatblygu'r cynigion a'r darpariaethau. Mae gwaith paratoi i weithredu gofynion y Bil eisoes ar droed, a bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda CNC. Mae angen i mi bwysleisio, fodd bynnag, fod elfen allweddol o Ran 1 o Fil yr Amgylchedd yn ymwneud â sut y bydd gofyn i CNC gyflawni ei bwrpas craidd; ac, yn hynny o beth, ni ddylid gweld y gofynion hyn fel swyddogaethau 'ychwanegol' ond, yn hytrach, dylid eu hystyried yn ganolog i'w gylch gwaith.

Bydd y costau a'r manteision gweithredu sy'n gysylltiedig â darpariaethau a nodir yn Rhan 1, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â datblygu datganiadau ardal, yn cael eu penderfynu i raddau helaeth gan y dull gweithredol y mae'r CNC yn dewis ei fabwysiadu, y tu hwnt i waith pontio sydd eisoes ar droed, i gyfuno'i swyddogaethau rheoleiddiol lle mae modd gwneud hynny o dan ddeddfwriaeth gyfredol.

Er mwyn sicrhau y dewisir y dull gweithredu mwyaf cost-effeithiol, mae CNC a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i adeiladu tystiolaeth, canfod dulliau gweithredol sy'n esiamplau o arfer da drwy, er enghraifft, y treialon ardal, yn ogystal ag adolygu modelau cyflawni cyfredol i fanteisio ar gyfleoedd i gynhoi a symleiddio swyddogaethau cynllunio a gweithredol.

O ystyried y bydd y costau gweithredu'n cael eu penderfynu gan ddull gweithredol CNC, rwy'n **derbyn mewn egwyddor** yr argymhelliad hwn. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnig opsiynau enghreifftiol ar gyfer gweithredu yn ymwneud â dulliau gweithredol posibl ar gyfer datblygu datganiadau ardal. Mae'r darpariaethau wedi'u llunio, fodd bynnag, i alluogi CNC i ddewis y dull mwyaf cost-effeithiol o gyflawni'r datganiadau ardal ac i ganiatáu hyblygrwydd wrth reoli goblygiadau cost yn y dyfodol.

### Argymhelliad 5

*Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn adolygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn rhoi syniad o'r costau sy'n gysylltiedig â Thrwyddedu Morol.*

O ystyried y costau sy'n gysylltiedig â thrwyddedu morol sydd eisoes wedi'u nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil, rwy'n **gwrthod** yr argymhelliad. Mae'r Adolygiad o Ffioedd Trwyddedu Morol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, a bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân i gyd-fynd ag ef – yn adeiladu ar y wybodaeth sydd eisoes wedi'i hamlinellu yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil yr Amgylchedd.

Ar y cyfan, rhagwelir mai defnyddwyr y gyfundrefn trwyddedu morol fydd yn ysgwyddo'r costau, a dylai'r manteision ychwanegol fod yn drech na nhw. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amlinellu y bydd costau o ryw £757,330 (dros gyfnod o 10 mlynedd) yn cael eu trosglwyddo o CNC i ddefnyddwyr y gyfundrefn trwyddedu morol.

### **Argymhelliad 6**

*Hoffai'r Pwyllgor gael sicrwydd y bydd costau ar gyfer y cwmnïau gwastraff hyn yn is yn y tymor canolig i'r hirdymor ac mae'n argymhell bod y Gweinidog yn gweithio gyda'r sefydliadau hyn i sicrhau y gallant barhau i weithredu drwy gydol y cyfnod trawsnewid a bod cyllid ar gael i'r sefydliadau hyn.*

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod disgwyl i gwmnïau rheoli gwastraff wneud arbedion sylweddol yn y tymor canolig i'r hirdymor, o refferniw ailgylchu a gostyngiad mewn costau gwaredu (h.y. osgoi treth dirlenwi).

Bydd gwaith yn cael ei wneud gyda busnesau rheoli gwastraff wrth i ni ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig i sicrhau ei bod yn addas i'r diben. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dangos y bydd cwmnïau rheoli gwastraff yn arbed arian drwy'r darpariaethau a nodir yn y Bil. Ar y sail honno, rwy'n hollol sicr na fydd angen cymorth ychwanegol arnynt i gyflawni'r gofynion. Am y rhesymau hyn, rwy'n **gwrthod** yr argymhelliad hwn.

### **Argymhelliad 7**

*Hoffai'r Pwyllgor i Lywodraeth Cymru ddilyn esiampl y Gweinidog Iechyd yn gyson, a nododd y byddai'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2015 yn cael eu diweddarau wrth i is-ddeddfwriaeth gael ei drafftio a'i chostio.*

Ymrwymodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i baratoi Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar wahân pan gyflwynir is-ddeddfwriaeth. Yn yr un modd, fy mwriad yw cyhoeddi Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Fil yr Amgylchedd lle mae angen, yn unol ag arferion safonol ac i sicrhau bod yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar y pryd.

Er fy mod yn cytuno ag adolygu costau a manteision ar ôl deddfu fel mater o arfer da, mae'n bwysig gochel rhag ychwanegu prosesau gor-fiwrocrataidd i'r perwyl hwn, a'r potensial cysylltiedig i fynd i gostau sylweddol yng nghyd-destun yr heriau sy'n parhau o ran cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus.

Ar sail ein hasesiad, byddai diweddarau'n barhaus y manylion a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer pob Bil bob tro y cynhyrchir is-ddeddfwriaeth yn gofyn

am adnoddau sylweddol ac, felly, rwy'n **gwrthod** yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, byddaf yn ystyried hyn fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu o'r Bil hwn.